Julie Morgan AM

Assembly Member for Cardiff North

ANNUAL REPORT 2015-2016

029 2061 4577 www.juliemorgan.org.uk facebook.com/Julie-Morgan @JulieMorganLAB

My year in Cardiff North

Find out what work I've been doing in the last year for constituents, charities and campaigns

Support for Velindre and Maggie's

I have consistently supported the plan for a new £200m cancer centre to be built at Velindre by 2020. I have held meetings with local residents and taken part in fundraising events like the Reindeer Run in December. Early in 2015 I visited the Maggie's centre in Swansea with the Health Minister Mark Drakeford. The staff care for cancer patients and families in a welcoming 'kitchen table' atmosphere. I've hosted meetings and keep a watching brief on fundraising efforts as a strong supporter of a Maggie's for Cardiff, to be built in the grounds of Velindre.

Life-changing drugs for haemophiliacs

I chair the Cross-Party Group on Haemophilia and Contaminated Blood and have long campaigned with Haemophilia Wales, run by a constituent, to campaign for new drugs to help haemophiliacs with Hepatitis C. New life-changing drugs to cure Hepatitis C were licensed by the Welsh Health Minister Mark Drakeford in September.

Welsh Kidney Patients' fundraiser

In July I hosted a coffee morning at the New Theatre to raise funds for the Welsh Kidney Patients' Association, after the sad news that a close friend and supporter had kidney disease and will, in the end, need a transplant. Of course the chances of receiving a transplant are now much greater after the Welsh Government's new Organ Donation Law which came into force on December 1, 2015.

Community Garden takes root

In the spring we planted the seeds of a community garden in the area of land outside Whitchurch Primary School and my constituency office at 17, Plasnewydd. With the help of volunteers we filled planters with herbs and vegetables. This year we will re-plant and put up signs encouraging passersby to help themselves to the produce.

Library arts group takes off

After protests by local people paid off and Whitchurch Library was saved from possible closure, I helped support a group of residents to set up Awen at the Library. I hosted the first meeting and have offered ongoing support to the group which aims to promote the library as a cultural venue to help protect it from future closure threats (the library's future is secure to 2017).

School's green success celebrated

In October I travelled to London to see Thornhill Primary School's pupils win a prestigious award from the Ashden Foundation at a ceremony in the London Symphony Orchestra's St Luke's concert hall. The school has made massive savings in its electricity bills thanks to the childrens' enthusiasm for eco initiatives.

Green, green grass of the green belt protected – for now

In October I launched a second petition calling for the beautiful north Cardiff landscape beyond the M4 to be a green belt. More than 2,000 people supported my petition but in the end the Planning Inspectorate designated the land as a 'green wedge' giving it protection from development for the life of the 10-year Local Development Plan. I will continue to campaign for lasting protection for the land.

Julie in the Assembly

In 2015, I made 156 contributions in the Senedd including 129 questions and speeches in debates and 27 tabled questions.

I serve on three Assembly committees:
– Environment & Sustainability
– Finance
– Public Accounts

I am chair of seven Cross-Party Groups on:
– Cancer
– Children
– Gypsies and Travellers
– Haemophilia and Contaminated Blood
– Justice Unions
– Nursing and Midwifery
– Public and Commercial Services Union

I am also a member of Assembly groups on Dementia, Fuel Poverty, Hospices / Palliative Care, Human Rights and Peace, Looked-After Children, Monetary Reform and Violence Against Women and Children.

Charity work and interests

I am Vice President of the George Thomas Hospice and have supported Macmillan for more than 15 years. I am a Trustee of Life For African Mothers, a maternal health charity co-founded by a constituent from north Cardiff.

Helping my constituents

My office in Whitchurch helps constituents with problems ranging from housing to health, benefits to education, anti-social behaviour complaints to adult social services issues. The office has dealt with more than 3,000 cases since I was elected in 2011.

Advice surgeries

Julie holds regular advice surgeries across Cardiff North:

Every Monday 10-11am
Cardiff North Labour Office
13 Llangranog Road, Llanishen CF14 5BL

Every Friday 3-4pm
Constituency Office
17 Plasnewydd, Whitchurch CF14 1NR

For more details call 029 2061 4577

RHIWBINA

✔ In the summer I launched a petition to keep open Rhiwbina's NatWest Bank branch. I met the bank manager and the bank has agreed to provide a weekly mobile banking service for customers.

✔ Yn ystod yr haf, fe lansiais i ddeiseb i geisio cadw cangen Banc NatWest Rhiwbeina ar agor. Fe wnes i gyfarfod â'r rheolwr banc ac mae'r banc wedi cytuno i ddarparu gwasanaeth bancio symudol wythnosol i gwsmeriaid.

LLANISHEN, LISVANE & THORNHILL

✔ I have campaigned with the Reservoir Action Group to save the reservoirs in Lisvane and Llanishen for 15 years. Western Power Distribution's attempts to build 320 homes on the site failed and the reservoirs are being sold back to Welsh Water so the community will be able to use them again for recreation and conservation.

✔ Rwyf i wedi bod yn ymgyrchu gyda Grŵp Gweithredu'r Cronfeydd i achub y cronfeydd dŵr yn Llys-faen a Llanisien ers pymtheg mlynedd. Mae ymgais Western Power Distribution i adeiladu 320 o gartrefi ar y safle wedi methu ac mae'r cronfeydd dŵr yn cael eu gwerthu yn ôl i Dŵr Cymru fel y bydd y gymuned yn gallu eu defnyddio eto ar gyfer hamdden a chadwraeth.

BIRCHGROVE & HEATH

✔ I campaigned against another bank threatened with closure – this time with a petition to Barclays. Sadly, despite our best efforts, the bank announced its closure in November and it will finally shut its doors this February.

✔ Fe ymgyrchais i yn erbyn y bwriad i gau banc arall – y tro hwn, gan gyflwyno deiseb i Barclays. Yn anffodus, er gwaethaf ein hymdrechion gorau, cyhoeddodd y banc ym mis Tachwedd y bydd yn cau ei ddrysau ym mis Chwefror.

WHITCHURCH & TONGWYNLAIS

✔ I held my 15th annual coffee morning at Miss Jones on Whitchurch High Street in September to raise money for Macmillan. It was a great success – thanks to students from Whitchurch High School for attending, especially Year 13 harpist Liberty for providing the music.

✔ After a long-running campaign to save Whitchurch Post Office, in May we heard that it was being saved and would move across the road into the newsagents McColls enabling it to modernise and offer accessible facilities.

✔ Mi gynhaliais i fy mhymthegfed bore coffi blynyddol yn Miss Jones ar Stryd Fawr yr Eglwys Newydd ym mis Medi i godi arian ar gyfer Macmillan. Bu'n llwyddiant ysgubol – diolch i fyfyrwyr o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd am ddod, ac yn enwedig i Liberty, y delynores o Flwyddyn 13, am ddarparu'r gerddoriaeth.

✔ Ar ôl ymgyrch hir i geisio achub Swyddfa Bost yr Eglwys Newydd, ym mis Mai fe glywon ni na fydd yn cael ei chau ac y bydd yn symud dros y ffordd i siop bapur newydd McColls, er mwyn iddi gael ei moderneiddio a chynnig cyfleusterau hygyrch.

GABALFA & LLANDAFF NORTH

✔ In the summer I attended an event to celebrate Gabalfa Primary School's recent success with a good Estyn report. The fête was a great event with live music and food provided by parents and local businesses.

✔ In October I went to the railway station in Llandaff North to see the improvements being made to make it easier for people with mobility problems and prams to get to the platform.

✔ Yn ystod yr haf, fe es i ddigwyddiad i ddathlu llwyddiannau diweddar Ysgol Gynradd Gabalfa a oedd wedi cael adroddiad da gan Estyn. Roedd yn ddigwyddiad gwych gyda cherddoriaeth fyw a bwyd gan rieni a busnesau lleol.

✔ Ym mis Hydref, fe es i'r orsaf reilffordd yng Ngogledd Llandaf i weld y gwelliannau sydd ar y gweill i'w gwneud hi'n haws i bobl â phroblemau symudedd a'r rhai â phramiau gyrraedd y platfform.

PONTPRENNAU & OLD ST MELLONS

✔ In November I visited the new much-needed Pontprennau primary school which opened in September. The English-medium school, which takes the pressure off other nearby primary schools in Cardiff North, also includes a nursery unit and teachers and pupils are settling in well.

✔ Ym mis Tachwedd, fe ymwelais i ag Ysgol Gynradd Pontprennau, a agorodd ym mis Medi. Mae'r ysgol cyfrwng Saesneg, sy'n lleddfu'r pwysau ar ysgolion cynradd eraill yng Ngogledd Caerdydd, yn cynnwys uned feithrin hefyd, ac mae'r athrawon a'r disgyblion yn setlo'n dda.

JULIE OUT AND ABOUT IN CARDIFF NORTH

JULIE O GWMPAS Y LLE YNG NGOGLEDD

HEATH * LLANISHEN * WHITCHURCH * TONGWYNLAIS * BIRCHGROVE * PONTPRENNAU * LISVANE * THORNHILL * MYNACHDY * GABALFA * LLANDAFF NORTH * RHIWBINA * PANTMAWR * OLD ST MELLONS

Promoted by Julie Morgan on behalf of herself at 17, Plasnewydd, Whitchurch, Cardiff CF14 1NR, and printed by A McLay & Company Limited, Longwood Drive, Forest Farm, Cardiff CF14 7ZB

Hyrwyddwyd gan Julie Morgan ar ei rhan hi ei hun yn 17, Plasnewydd, yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NR, a phrintiwyd gan A McLay & Company Limited, Longwood Drive, Forest Farm, Caerdydd CF14 7ZB

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Julie Morgan AC

Aelod Cynulliad Gogledd Caerdydd

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015-2016

029 2061 4577 www.juliemorgan.org.uk facebook.com/Julie-Morgan @JulieMorganLAB

Fy mlwyddyn i yng Ngogledd Caerdydd

Darllenwch beth rwyf i wedi bod yn ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ran etholwyr, elusennau ac ymgyrchoedd

✔ Cefnogi Felindre a Chanolfan Maggie

Rwyf i wedi bod yn cefnogi'r cynllun yn gyson i adeiladu canolfan ganser newydd gwerth £200 miliwn yn Felindre erbyn 2020. Rwyf i wedi cyfarfod â phobl leol a chymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian megis y Ras Geirw ym mis Rhagfyr. Yn gynnar yn 2015, mi ymwelais i a'r Gweinidog Iechyd Mark Drakeford â Chanolfan Maggie yn Abertawe. Mae'r staff yn gofalu am gleifion canser a'u teuluoedd mewn awyrgylch croesawgar. Rwyf i wedi cynnal cyfarfodydd ac rwy'n cadw llygad ar ymdrechion i godi arian fel cefnogwr brwd o'r bwriad i sefydlu Canolfan Maggie yng Nghaerdydd, i'w hadeiladu ar dir Felindre.

✔ Cyffuriau i newid bywyd y rhai sydd a hemoffilia

Rwy'n cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hemoffilia a Gwaed Halogedig ac rwyf i wedi ymgyrchu ers tro byd gyda Hemoffilia Cymru, sy'n cael ei redeg gan etholwr, dros gyffuriau newydd i helpu'r rhai â hemoffilia a Hepatitis C. Cafodd cyffuriau hollbwysig newydd i wella Hepatitis C eu trwyddedu gan y Gweinidog Iechyd Mark Drakeford ym mis Medi.

✔ Codi arian ar gyfer Cleifion Arennol Cymru

Ym mis Gorffennaf, fe gynhaliais i fore coffi yn y New Theatre i godi arian ar gyfer Cymdeithas Cleifion Arennol Cymru, yn dilyn y newyddion trist bod gan gyfaill agos a chefnogwr glefyd yr arennau ac y bydd angen trawsblaniad yn y pen draw. Wrth gwrs, mae pobl yn fwy tebygol bellach o gael trawsblaniad ers i Ddeddf Rhoi Organau newydd Llywodraeth Cymru ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

✔ Gardd Gymunedol yn dwyn ffrwyth

Yn y gwanwyn, fe blannon ni hadau gardd gymunedol yn yr ardal y tu allan i Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd a swyddfa'r etholaeth yn 17 Plasnewydd. Gyda help gwirfoddolwyr, fe lenwon ni botiau mawr gyda pherlysiau a llysiau. Blwyddyn yma, byddwn ni'n ailblannu ac yn codi arwyddion i annog pobl sy'n pasio i helpu eu hunain i'r cynnyrch.

✔ Grŵp celfyddydau llyfrgell

Ar ôl i Lyfrgell yr Eglwys Newydd gael ei hachub yn dilyn protest gan bobl leol, fe helpais i grŵp o bobl leol i sefydlu Awen yn y Llyfrgell. Fe gynhaliais i'r cyfarfod cyntaf ac rwyf i wedi cynnig cymorth parhaus i'r grŵp sy'n ceisio hyrwyddo'r llyfrgell fel lleoliad diwylliannol i helpu i'w hamddiffyn rhag bygythiadau i'w chau yn y dyfodol (mae'r llyfrgell yn ddiogel tan 2017).

✔ Dathlu llwyddiant gwyrdd ysgol

Ym mis Hydref, fe deithiais i Lundain i weld disgyblion Ysgol Gynradd Thornhill yn ennill gwobr Sefydliad Ashden mewn seremoni yn neuadd gyngerdd St Luke's y London Symphony Orchestra. Mae'r ysgol wedi arbed llawer o arian ar ei biliau trydan diolch i frwdfrydedd y plant dros eco-fentrau.

✔ Y llain las wedi'i hamddiffyn – am y tro

Ym mis Hydref, fe lansiais i ail ddeiseb yn galw am i dirwedd hardd gogledd Caerdydd y tu hwnt i'r M4 fod yn llain las. Fe gefnogodd mwy na 2,000 o bobl fy neiseb ond, yn y diwedd, mi ddynododd yr Arolygiaeth Gynllunio y tir fel 'lletem las', gan ei amddiffyn rhag datblygiad am oes y Cynllun Datblygu Lleol deng mlynedd. Byddaf i'n parhau i ymgyrchu i amddiffyn y tir yn barhaol.

Julie yn y Cynulliad

Yn 2015, fe wnes i 156 o gyfraniadau yn y Senedd, gan gynnwys 129 o gwestiynau ac areithiau mewn trafodaethau a chyflwyno 27 o gwestiynau.

Rwy'n aelod o dri o bwyllgorau'r Cynulliad:
– Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
– Cyllid
– Cyfrifon Cyhoeddus

Rwy'n cadeirio saith Grŵp Trawsbleidiol:
– Canser
– Plant
– Sipsiwn a Theithwyr
– Hemoffilia a Gwaed Halogedig
– Undebau Cyfiawnder
– Nyrsio a Bydwreigiaeth
– Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol

Rwy'n aelod o grwpiau'r Cynulliad ar y canlynol hefyd: Dementia, Tlodi Tanwydd, Hosbisau / Gofal Lliniarol, Hawliau Dynol a Heddwch, Plant sy'n Derbyn Gofal, Diwygio Ariannol a Thrais yn erbyn Menywod a Phlant.

Gwaith elusennol a diddordebau

Fi yw Is-Lywydd Hosbis George Thomas ac rwyf i wedi cefnogi Macmillan ers mwy na phymtheg mlynedd. Rwy'n Ymddiriedolwr Life For African Mothers, elusen iechyd ar gyfer mamau a gyd-sefydlwyd gan etholwr o Ogledd Caerdydd.

Helpu fy etholwyr

Mae fy swyddfa yn yr Eglwys Newydd yn helpu etholwyr sydd â phroblemau yn ymwneud â thai, iechyd, budd-daliadau, addysg, cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau gyda gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Mae'r swyddfa wedi ymdrin â mwy na 3,000 o achosion ers i mi gael fy ethol yn 2011.

Cymorthfeydd

Mae Julie yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd ledled Gogledd Caerdydd:

Bob dydd Llun 10-11am
Swyddfa Llafur Gogledd Caerdydd
13 Llangranog Road, Llanisien CF14 5BL

Bob dydd Gwener 3-4pm
Swyddfa'r Etholaeth
17 Plasnewydd, Yr Egwys Newydd CF14 1NR

I gael mwy o fanylion, ffoniwch 029 2061 4577